



Ysgol Pentreuchaf

150. Polisi Ysgol Werdd a Chynladwyedd

Nod

Mae gwyrth y greadigaeth mewn perygl yn barhaus. Rydym fel ysgol yn ymrwmo i wella perfformiad yr amgylchedd yn barhaus. Hyrwyddir ymwybyddiaeth amgylcheddol mewn ffordd sy'n cysylltu â llawer o bynciau'r cwricwlwm, gan gynnwys Dinasyddiaeth Byd Eang, Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABaCh) ac addysg ar gyfer cynladwyedd.

Amcanion

1. Sail Ysgolion Gwyrdd yw gweithio drwy ymglymu'r holl ysgol – yn didsgyblion, athrawon, staff ategol a llywodraethwyr, ynghŵd ag aelodau o'r gymuned leol, yn rieni, yr AALL, y cyfryngau a busnesau lleol i ymwneud â materion cynladwyedd.
2. Datblygu ac annog gwaith tîm, fydd yn gymorth i greu dealltwriaeth ranedig o'r hyn y mae ei angen er mwyn rhedeg ysgol mewn ffordd sy'n parchu ac yn gwella'r amgylchedd.

Canllawiau

1. Rhoi cyfle i'r disgyblion i feddwl yn greadigol a beirniadol, i gwestiynu, awgrymu a thrafod syniadau ac i esbonio pethau a datblygiadau a welwn yn y byd o'n cwmpas.
2. Datblygu cyfleoedd i wneud materion amgylcheddol yn rhan o fywyd yr ysgol.
3. Cynllunio cyfleoedd i ddatblygu sgiliau meddwl y disgyblion drwy ymchwilio i brosesau, damcaniaethau, problemau ac ystyriaethau sut y dylai pethau byw a'r amgylchedd gael eu gwarchod.
4. Plethu prosiectau gyda gweithgareddau a digwyddiadau naturiol gweddill y cwricwlwm.
5. Creu cysylltiadau a rhoddi mynediad i rwydwaith o asiantaethau cymorth e.e. Cyngor Cefn Gwlad, Parc Cenedlaethol
6. Cyfathrebu gydag ysgolion eraill yn y DU ac Ewrop.
7. Sicrhau cyfleoedd ar gyfer datblygu cyhoeddusrwydd lleol a chenedlaethol a chyfleoedd i ennill gwobrau.
8. Creu ymwybyddiaeth o effaith a photensial y cynllun fel arbediad ariannol e.e. ail-gylchu, diffodd goleuadau, tapiau i'w pwyso a.y.y.b.

Medrau Allweddol

Datblygu medrau siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu'r disgyblion, defnyddio a deall termau amgylcheddol ac adnabod enwau asiantaethau cymorth.

Datblygu gwaith rhif, medrau mesur ac arddangos a dadansoddi data, gan ddefnyddio graffiau.

Defnyddio amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth i ddatblygu eu gallu a'u dealltwriaeth o wahanol agweddau ar y meysydd, gan gynnwys cyfeirlyfrau, papurau newydd, rhaglenni teledu, fideo, y Wê.

Defnyddio TGCh i gyflwyno a thrafod gwybodaeth gyfredol, i gasglu, cadw, adfer a chyflwyno gwybodaeth a data.

Casgliad

Drwy ddatblygu i fod yn Ysgol Werdd, gweithiwn tuag at ddatblygu'r plant i fod yn ymwybodol o bwysigrwydd gofalu am yr amgylchedd a sicrhau bod llais y plentyn yn cael sylw dyledus.

Adolygir 21/11/16

Arwyddwyd: _____, Cadeirydd y Llywodraethwyr

Dyddiad: _____